



2pm, Dydd Mawrth, 19 Tachwedd 2024
Cyfarfod a gynhaliwyd drwy Teams

COFNODION	
Presennol	
Enw	Sefydliad
Cynghorydd Darren Price (Cadeirydd)	Cyngor Sir Caerfyrddin
Andrew Cornish	Coleg Sir Gâr
Mydrian Harries	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Huwel Manley	Cyfoeth Naturiol Cymru
Supt. Jayne Butler	Heddlu Dyfed Powys
Dr Michael Thomas	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Linda Jones	Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
Andrew Charles	Llywodraeth Cymru

Presennol	
Enw	Sefydliad
Jemma Parsons	Pennaeth yr Academi Sgiliau Gwyrdd, Coleg Sir Gâr
Andrew Hood	Cyfoeth Naturiol Cymru
Gwyneth Ayers	Cyngor Sir Caerfyrddin
Amy Richmond Jones	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Llinos Evans	Cyngor Sir Caerfyrddin

1. Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

Ymddiheuriadau	
Enw	Trefniadaeth
Cynghorydd John Davies	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Christine Harley	Gwasanaeth Prawf
Kevin James	Adran Gwaith a Phensiynau
Marie Mitchell	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin
Kate Harrop	Cyngor Sir Caerfyrddin

Croesawodd y Cynghorydd Darren Price, y Cadeirydd, bawb i'r cyfarfod.

Nodwyd fod Gwilym Dyfri Jones, sydd wedi bod yn cynrychioli Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wedi gadael y sefydliad. Diolchodd y Cadeirydd i Gwilym am ei gyfraniad i'r BGC gan nodi dymuniadau gorau oddp ar ran yr aelodau.

Gofynnir am gynrychiolydd newydd gan y Brifysgol.

Amcan Llesiant: Ymateb i argyfyngau hinsawdd a natur

2. Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas Ddrafft

Croesawyd Beau Gray a Rachel Kelway-Lewis i'r cyfarfod. Mae Beau a Rachel wedi bod yn arwain ar ddatblygu'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas drafft. Mae'r strategaeth yn integreiddio â strategaethau

corfforaethol ac yn meithrin cydweithredu ar draws adrannau a rhanddeiliaid a'i nod yw cynllunio, diogelu a rheoli asedau GBI yn rhagweithiol i wella lles a chynaliadwyedd.

Mae'r amcanion strategol ar gyfer Strategaeth Ddrafft GBI yn canolbwyntio ar wella lles a chynaliadwyedd yn Sir Gaerfyrddin. Nodir yr amcanion allweddol isod:

1. Pobl: Nod y strategaeth yw gwella llesiant y gymuned trwy gynllunio, diogelu a rheoli asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas (GBI) yn rhagweithiol.
2. Lle: Mae'n ceisio integreiddio GBI i seilwaith Sir Gaerfyrddin, gan ei gydnabod fel asgwrn cefn i'r rhanbarth.
3. Natur: Mae'r strategaeth yn pwysleisio pwysigrwydd cynaliadwyedd a diogelu adnoddau naturiol i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol.

Mae'r amcanion hyn wedi'u cynllunio i feithrin cydweithredu ar draws adrannau a chyda rhanddeiliaid allanol, gan sicrhau bod strategaeth GBI yn effeithiol, yn gynaliadwy, ac yn fuddiol i bawb.

Ymhlith y cyfleoedd allweddol a nodir yn y strategaeth ddrafft mae cynigion ar gyfer datblygiadau newydd, ôl-osod GBI, mentrau rheoli tir, a gwelliannau canol y dref.

Tanlinellwyd y dull Partneriaeth, er mwyn sicrhau canlyniadau effeithiol, cynaliadwy a buddiol GBI.

Mae'r aelodau'n diolch i Beau a Rachel am eu gwaith manwl drwy'r cyflwyniad a'r Strategaeth ddrafft.

Nododd HM y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad ond ei fod yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael golwg gynnar. Gall tystiolaeth bellach a allai gefnogi'r datblygiad y Strategaeth gynnwys data o'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (a ddisgwyli'r ddiwedd Ionawr / dechrau Chwefror) a hefyd myfyrion ar y Rheoliadau newydd o ran lledaenu slyri.

Awgrymodd HM fod gwerth pren yn y sir ac argaeledd yr ystâd gyhoeddus fel ardaloedd posibl y gellid eu harchwilio ymhellach.

Cyfeiriodd Andrew Charles at rôl cymunedau a sut y cânt eu galluogi i gymryd rhan yn y strategaeth a bydd yn gadarnhaol gweld sut mae hyn yn esblygu ymhellach drwy'r [Pecyn Cymorth Cymunedol](#).

Tynnodd Andrew sylw hefyd at y cyfleoedd i gynllunio gwyrdd a glas i fod yn hygyrch ac yn unol â Chynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor. Mae cyfle hefyd drwy'r Polisi Dyraniadau Rhandiroedd a'r gwaith Rheoli Defnydd Tir. Amlygwyd y canllawiau Atodol Ddrafft: Mannau Agored hefyd o ran meini prawf o ran hygyrchedd.

O ran monitro'r Strategaeth, bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach, yn dilyn ymgynghori a datblygu cynllun gweithredu penodol.

Cytunwyd i ddatblygu rhagair ar y cyd gan y BGC i ffurfio rhan o Strategaeth GBI.

Gofynnwyd i'r aelodau a oes ganddynt Fforymau Defnydd Tir sefydliadol ac a yw'r strategaeth hon yn rhoi cyfle i ddod â fforymau at ei gilydd i edrych ar yr amcanion allweddol ac i edrych ar y gwaith mapio a wnaed yn flaenorol trwy brosiectau lleol gyda Llywodraeth Cymru.

GWEITHRED	
Cylchredeg yr ymgynghoriad ar y Strategaeth GBI ddrafft pan gaiff ei chyhoeddi.	Tîm Cefnogi BGC
Cytunwyd i ddatblygu rhagair ar y cyd gan y BGC i ffurfio rhan o Strategaeth GBI.	Tîm Cefnogi BGC
Ymchwilio i fforymau cyfredol sy'n seiliedig ar ddefnydd tir ac edrych ar gysylltiadau posibl	Tîm Cefnogi BGC

Amcan Llesiant: Sicrhau economi gynaliadwy a chyflogaeth deg
3. Academi Sgiliau Gwyrdd

Croesawyd Jemma Parsons i'r cyfarfod.

Amlinellodd Jemma ddatblygiad yr Academi Sgiliau Gwyrdd yng Ngholeg Sir Gâr. Mae amcanion yr Academi yn cynnwys:

- Addysg Werdd a datblygu'r gweithlu
- Ymateb i anghenion sgiliau rhanbarthol a chenedlaethol
- Diwallu anghenion gweithlu sy'n addasu
- Wedi'i leoli yng nghalon ein sir

Yn ystod blwyddyn academiaidd 2023-24, darparwyd 1291 o gymwysterau. Amlinellodd JP rai o'r cyflogwyr sy'n ymwneud â hwy fel rhan o'r Academi i sicrhau bod dysgwyr yn gallu cael y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf. Mae amrywiaeth eang o sefydliadau yn cymryd rhan yn yr Academi, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Heddlu Dyfed Powys a Barcud.

Mae'r prosiect Gwyrdd 24 wedi cael ei ddatblygu'n benodol i ddatblygu gwybodaeth o ran Sgiliau Gwyrdd a chynaliadwyedd ac mae'n Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer IEMA gyda 6 chymhwyster wedi'u cyflwyno. Y targed cychwynnol oedd cyflawni i 350 ond mae 800 wedi eu cyrraedd.

Cadarnhaodd JP hefyd y bydd un o'r adeiladau ar gampws Gelli Aur yn cael ei ôl-osod.

Fel rhan o'r academi, mae modiwl dwyieithog ar-lein ar Ddeall Sero Net a'n Dull Gweithredu wedi'i ddatblygu ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin ac mae cymorth wedi'i ddarparu i'r Adran Lle a Seilwaith i ddatblygu ei weithlu fel rhan o'r broses o gyflwyno Ailgylchu.

Er bod y cyllid SPF yn dod i ben, mae'r Coleg wedi gallu sicrhau cyllid a pharhau i gynnig y cymorth ar draws sefydliadau.

Gofynnwyd i'r aelodau gefnogi cryfhau gwaddol yr Academi Sgiliau Gwyrdd. Nododd y Cadeirydd y potensial a ddeler yn y rhanbarth hwn o ran y Gorsafoedd Cartrefi i Bŵer, y gweithlu presennol a'r Porthladd Rhydd Celtaidd.

GWEITHRED

Cytunwyd i gylchredeg cyflwyniad Jemma a manylion cyswllt i'r holl aelodau.

Tîm Cefnogi BGC

4. Asesiad Risg Newid Hinsawdd

Atgoffwyd yr Aelodau yn garedig i anfon enwebiadau ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Asesu Risg Newid Hinsawdd i'r Tîm Cefnogi BGC.

Mae dyddiad petrus ar gyfer y cyfarfod cyntaf wedi'i bennu ar gyfer 7 Ionawr 2025.

5. Diweddariadau o'r Grwpiau Gorchwyl a Gorffen

Cafodd yr aelodau ddiweddariad gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen GBC (Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif) / Hwb, a sefydlwyd gan y BGC i fynd i'r afael â thlodi a'i effeithiau. Canolbwyntiodd y grŵp ar ymchwilio i gyfleoedd a rhwystrau, deall heriau cymunedol, ac edrych ar ffyrdd o wella atgyfeiriadau rhwng sefydliadau.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau ar yr argymhellion canlynol:

1. Datblygu presenoldeb ar y we ar y cyd i sicrhau bod gwasanaethau cyngor a chymorth a ddarperir ar draws y sefydliadau BGC yn cael eu hyrwyddo a'u cydlynu.
2. Bod aelodau staff rheng flaen allweddol o fewn sefydliadau BGC yn cael eu hannog i gwblhau hyfforddiant Lefel 1 MECC (e-ddysgu).
3. Bod y grŵp yn parhau i gwrdd i ganolbwyntio ar y mewnwleidiad sy'n wynebu ein cymunedau a grwpiau a warchodir yn benodol.

Nododd Linda Jones y gwaith y mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi'i wneud yng nghyd-destun plant a phobl ifanc, o dan brosiect Nyth.

Cytunwyd i gysylltu LLE â Jo Thorpwood.

GWEITHRED	
Creu cysylltiad rhwng Grŵp Gorchwyl a Gorffen MECC a'r gwaith Nyth a wnaed gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.	Linda Jones

6. Cofnodion a gweithredoedd

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Medi 2024

Cytunwyd ar gofnodion fel rhai cywir.

Log Gweithredu

Darparwyd diweddariadau ar gamau gweithredu blaenorol.

7. Unrhyw fusnes arall

Ni dderbyniwyd unrhyw fusnes arall gan y Cadeirydd.

8. Cyfarfodydd y dyfodol

- 21 Ionawr 2025 (2pm – 4pm)
Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Caerfyrddin.